# Cofnodion Cyngor Bro Llangwm 30/10/2019

Presennol **–** Gwynfryn Jones (Cadeirydd), Gwyn Davies, Sioned Jones, Glenydd Evans, Gwyndaf Jones, Rhian Ellis (Clerc).

Ymddiheuriadau **–** Cynghorydd Peter Lewis

Cydymdeimlo

Collwyd dau aelod o'r ardal yn ddiweddar sef Mrs Sally Evans a Mr Dwyfor Jones. Dangoswyd ein cydmdeimlad a Glenydd Evans ag Awel Jones ar teuluedd yn eu colled.

1.Cofnodion pwyllgor 15.08.2019

Cynigwyd fod y cofnodion yn gywir gan Glenydd ag eilwyd gan Gwyndaf.

Materion yn Codi

Gwefan – Yng ngofal Awel

Cwt Hers – Dim i'w adrodd

Arosfannau Bwsiau yr ardal – Gadael gyda Eiffl.

2. Neuadd Fach

Nodwyd Gwynfryn bod gwaith atgyweirio i'w wneud ar y neuadd. Mae'r bedair ffenest angen eu newid ond mae yn bosib adnewyddu y gwaelod a gadael y darn hanner crwn yn ei le gan fod darn ucha y ffenest yn iawn.

Mae pren y porch wedi braenu felly mae angen tynny y llechi ac ail osod coed o'r newydd, hefyd bydd angen landeri newydd.

Mae'r 'gable end' angen ei ail bwyntio.

Y tu fewn mae'r nenfwd wedi disgyn, awgrymwyd rhoi 'plywood' yn lle plasterboard.

Penderfynwyd gael pris gan Eryl Vaughan a Dewi Jones.

Penderfynwyd fod y gofeb rhyfel a hefyd y faner I gael ei ail leoli yn y neuadd.

3 Ceisiadau Cynllunio

1. Sied Ieir a silo bwyd yn Parc
2. Bin Cecs yn Aeddren
3. To Haul yn Plas Garthmeilio
4. Uned gwyliau yn Gaer Gerrig ynghyd ag adwy newydd
5. Sied yn Brynffynnon
6. Llyn a coed hynafol yn Ffynnon Wen

Penderfynnodd y Pwyllgor fod y Clerc I anfon llythyr yn nodi eu pryder a yw Pont y Glyn ddigon cryf I ddal yr holl drafeilio ychwanegol.

Angen cwestiynnu a oedd caniatad gan y Cyngor Sir wedi roi I  Ffynnon Wen agor adwy newydd ar y ffordd fawr.

4. Caeau Chwarae

Aros am benderfyniad gan y Cyngor Sir a ydynt am drosglwyddo perchnogaeth y caeau chwarae I ofal y Cyngor Bro.

5. Neuadd Fach

Y Cadeirydd am gael gair efo Dewi Jones I gael clirio yr adeiad

6.Ariannol

Mae yna £1400 precept wedi dod I law

Daeth bil o £420 am dorri y fynwent a chytunwyd I dalu a gofyn I Rhydian Morris fod yng ngofal y fynwent eto eleni.

Derbyniwyd llythyr gan Urdd Conwy yn holi am gyfraniad – cytunwyd I gyfrannu £50.

Awdit Allannol

Trafodwyd yr hyn ddaeth o'r Awdit a Gwynfryn I siarad gyda'r archwilwyr.

U.F.A.

Penderfynwyd gael 2 sgip, un I Dimael ar llall I Langwm.

Lamp wrth y Neuadd ddim yn gweithio – y clerc I ffonio y Cyngor

JCB wedi ei adael wrth Bron Ddwyryd ers bron I flwyddyn – y clerc I gyslltu gyda'r Cyngor i'w symud.

Dyddiad y cyfarfod nesaf 27.11.2019